

(9) 510  
**HANES ALARUS**

AM Y

**DANCHWA DDYCHRYNLLYD**

A GYMERODD LE YN

**MHWLL PENYGRAIG,  
CWM RHONDDA,**

*Boreu Dydd Sul. Ionawr 27ain, 1884, pan gafodd  
pedwar-ar-ddeg o Weithwyr eu lladd.*

Prydnawn dydd Sul, aeth parti o ymchwilwyr i lawr i'r pwll, ond effeithiodd y *damp* mor drwm arnynt, fel y syrthiodd tri ohonynt yn ddideimlad, a cholasant eu hywydau. Llwyddodd y lleill i ddianc, ond lled gyfyng y bu arnynt. Enwau y gweithwyr anffodus oeddynt yn y pwll ar adeg y danchwa: Oliver Jones, 33 mlwydd oed, gwraig a thri o blant, *ostler*; Thomas Davies ("Double Power"), *contractor*; James Seville, 50 oed, gwraig a dau o blant, *ostler*; William Williams, tanwr; Frederick Nugent, 45 oed, naw o blant—chwech yn ymddihyn arno am eu bara chaws, *ostler*; John Escott, 27 oed, dyn sengl, *ostler*; Solomon Edwards, 42 oed, gwraig a saith o blant, priif *ostler*; John Haycock, 52 oed, gwraig ac wyth o blant; John Haycock, mab y blaenorol; John Price, 44 oed, gwraig a thri o blant, tanwr; David Jones, 55 oed, gwraig ac wyth o blant, tanwr. Yr ymchwilwyr a gollasant eu hywydau oeddynt: Thomas Lewis (is-oruchwyliwr y pwll), Edward Watkins ("Ned Adare Inn"), a Mr. Daniel Thomas, perchenog Glofa y Ddinas. Darfu i'r olaf gael ei anrhegu â medal aur am ei ymddygiad dewr ac anturiaethus ar achlysur trychineb Tynewydd.

**M**OR fynych y dygir newyddion  
Sy'n gwneuthur bob calon yn brudd,  
Damweiniau a dirfawr gollodion,  
I gylwed am danynt bob dydd;

Yr Angeu yn rhanu teuluoedd,  
 A gosod ugeiniau dan gur,  
 A lleisiau'r amddifaid a'r gweddwon  
 Yn peri rhyw brudd-der trwy'r tir.

Penygraig, yn Nghwm mawr y Rhondda,  
 Sydd eto yn wylo yn gry'  
 Am rheiny o'i meibion a laddwyd  
 Yn nyfnder yr hen lofa ddu ;  
 Y gwyr yn ymadael a'u gwragedd—  
 Y tadau'n rhoi ffarwel i'r plant,  
 A brodyr a garent eu gilydd  
 Gymerwyd o'r bywyd i'r pant

Nos Sadwrn, y chwechfed-ar-ugain  
 O Ionawr, yn hwyr yn y dydd,  
 Aeth un-dyn-ar ddeg lawr i weithio,  
 Heb feddwl am angeu na'r bedd ;  
 Ond gyda'r wawr—dyna'r ergyd !  
 A glwyfodd galonau pob gradd,  
 Ar foment heb eiliad o rybudd  
 Hwyr gawsant eu llosgi a'u lladd.

Fe redai y gwragedd mewn dychryn  
 I edrych a welant eu gwŷr,  
 A'r mamau mewn lludded ac ofn,  
 A geisient eu meibion yn wir ;  
 O bell ac o agos y casglu  
 Y glowyr mewn lluoedd yn awr,  
 Cynygient eu gwaith a'u bywydau—  
 Ni 'styrient 'run perygl yn fawr !

A'r dewr Daniel Thomas mor enwog,  
 Un ffyddlon y bu ef erioed,  
 I helpu y rhai mewn cyfyngder,  
 Cy'n isel a gwael iawn eu nôd ;  
 I mewn mysg ewympiadau a uwyon,  
 Anturiodd heb feddwl am fraw,

Ond collodd ei fywyd oedd werthfawr,  
With estyn i eraill help llaw.

T. Lewis, ac hefyd E Morgan  
A fuont yn ffyddlon a dewr,  
Ond yn y tŷwyllwch a nwyon,  
Hwy goll'sant eu bywyd yn siwr;  
Gobeithiwn na choller ychwaneg  
Fywydau mor werthfawr a drud,  
A chodir y cyrff oll i fyny,  
A'u claddu heb golli fawr pryd.

Mae'r weddw yn wylo ac ochain,  
A'r plentyn yn llefain am dad,  
A'r fam wedi colli ei bachgen,  
Yn ewyno'n alarus trwy'r wlad;  
Perth'nasau mewn blinder a thrallod,  
Am golli'u cydnabod teg wedd,  
A'r ardal i gyd yn ei galar  
Am roddi y dynion mewn bedd.

Y plant ânt i'r drws yn y cyfnos  
I ddysgwyl dyfodiad eu tad,  
Ond nid ydyw ei gerddediad  
I w meddwl yn roddi mwynhad;  
Mae canfod eu hagwedd druenus,  
A'n gwnaent yn alarus i gyd,  
Eu prif ffrynd sydd wedi eu gadael  
A hwythau heb gâr yn y byd

Fe drowd eu haneddau cysurus  
Yn llwm a thruenus eu gwedd,  
Yn lle bod yn llanw y cornel,  
'Does dim ond eu hebrwng i'r bedd;  
Lle gynt y preswyliai gorfoledd,  
Yn awr y mae ochain a gwae,  
Y gadair yn wag o'i pherchenog,  
A drysau pob anedd yn nghau.

## A SORROWFUL LAMENT

For the 14 unfortunate men who lost their lives by the terrible explosion which occurred at Penygraig Colliery, Rhondda Valley, on Sunday morning, January 27th, 1884.

**H**OW great is the weeping and sorrow,  
 Now heard in the great Rhondda Vale !  
 How sorrowful is the loud weeping,  
 And many a pitiful tale !  
 For homes have been darkened and emptied,  
 And mournful are made by one blow,  
 The friends of so many a household,  
 By Death have been laid now so long.

'T was early on Sunday morning,  
 A dreadful noise loudly was heard,  
 All knew that it was an explosion,  
 And many werè dead it was feared ;  
 The wives and the mothers, and daughters,  
 Quick to the pit's mouth made way,  
 And there they stood weeping and wailing,  
 And waiting all through the dread day.

How many a home is now empty  
 Which once was so happy and bright ?  
 How empty the chair in the corner ?—  
 Now vanished that once happy sight ?  
 The widows and orphans are weeping,  
 Their desolate state to behold,  
 And those they loved one time so dearly,  
 Are now lying so dead and cold !

Brave Daniel Thomas he ventured,  
 And into the pit did he go,  
 While other brave men then there with him,  
 But Death so soon laid them low !  
 We hope they will soon be recovered,  
 And also the other poor men,  
 Their bodies be brought to the sursace,  
 And carefully buried them then.